# Press release

## Charles Williams Church in Wales Primary School has been awarded a grant by The National Lottery Heritage Fund to celebrate and share its 300-year history with the local community.

Today, Charles Williams Church in Wales Primary School is announcing a £53,147 grant from The National Lottery Heritage Fund to celebrate our 300-year anniversary, by researching and sharing our heritage with the community that surrounds us.

The school is rare in that it was formed as a charity school for poor and destitute families in 1724, through an endowment from former Caerleon resident, Charles Williams. To celebrate this important milestone, our school – in collaboration with Gwent Archives and Amgueddfa Cymru's National Roman Legionary Museum - will research its heritage from Georgian origin to history in living memory. The whole school will be involved in the development of this heritage learning and public engagement project. We recognise the importance of using our tercentenary to capture and save heritage that would otherwise remain hidden and at risk of loss. The funding will enable us to:

- Save heritage by collecting oral histories from those who attended the school whether pupils, teachers or staff members.
- Work in partnership with Gwent Archives to research and investigate our 300-year history. Gwent Archives hold collections relating to the school, dating back to the 1700s. Items include the will of Charles Williams, school logbooks, admission registers, photographs and maps.
- Involve our whole school community in researching and exploring our school's unique heritage. Working with heritage experts, including an Arts & Heritage Consultant, Gwent Archives and National Roman Legionary Museum staff, pupils will develop and co-curate an exhibition. This will include them working with the senior curator of the National Roman Legionary Museum to co-curate a temporary display of Roman artefacts excavated from the school's grounds.
- Increase access to and participation in our heritage stories - through the delivery of special events including community collecting days, an interactive family-friendly exhibition, specialist history talks, a heritage walk and a family fun day.
- The project will be developed in consultation with our school's pupil-run Eco-Committee and consideration will be given to the use of environmentally friendly materials, as well as reducing waste, reusing and recycling material wherever possible.

Over the coming months, we'll be inviting those who have a connection to the school – whether they or relatives were previously a pupil, staff or teacher - to join us at special Community Collecting Days, to share their personal heritage and memories of Charles Williams Church in Wales Primary School. To stay in touch with our progress or to attend an event please follow us on Facebook and X/Twitter, and keep an eye on our website for further updates: https://www.charleswilliamsprimary.org

Rebecca Penn, Headteacher of Charles Williams Church in Wales Primary School explains, "We are thrilled and excited to have received this support from The National Lottery Heritage Fund. This project is an incredible learning opportunity for our pupils, enabling them to explore and investigate history, that is literally around them and under their feet, with the support of heritage and arts experts - and to share this history with family, friends and the wider community. We thank National Lottery Players for enabling this to happen."

# Notes to editors

**About Charles Williams Church in Wales Primary School**

Charles Williams Church in Wales Primary is a voluntary aided school in the heart of historic Caerleon. The school was established in 1724 thanks to a bequest made by its namesake, Charles Williams, a former resident of Caerleon. In accordance with the school's trust deed, the school has strong links with St Cadoc's Church and works closely with the Diocese of Monmouth. Currently, there are just over 500 children on roll (aged three to 11) and we are pleased to welcome children from Caerleon, outlying villages and other areas of Newport. The school is governed by a board of 16 governors made up of the Headteacher, the Vicar of the parish, two staff members, two Council appointments, two parents, two parochial appointments, two diocesan appointments and four Trustees of Charles Williams Charity. Our children's wellbeing is at the heart of all that we do. We strive to ensure that our children are happy and confident and reach their learning potential, to be the best version of themselves and to grow to become responsible, reflective citizens of Wales and the world. In our school family, love forms the basis of all that we do. We share a love of learning, love for one another and love for the world. Our values are: Belong, Believe, Become.

Follow @cwprimary on X/Twitter and @CharlesWilliamsPrimaryPTFA on Facebook

#OurSchool_RootsToHeritage

**About The National Lottery Heritage Fund**

As the largest dedicated funder of the UK's heritage, The National Lottery Heritage Fund's vision is for heritage to be valued, cared for and sustained for everyone, now and in the future as set out in our strategic plan, Heritage 2033.

Over the next ten years, we aim to invest £3.6billion raised for good causes by National Lottery players to bring about benefits for people, places and the natural environment.

We help protect, transform and share the things from the past that people care about, from popular museums and historic places, our natural environment and fragile species, to the languages and cultural traditions that celebrate who we are.

We are passionate about heritage and committed to driving innovation and collaboration to make a positive difference to people's lives today, while leaving a lasting legacy for future generations to enjoy.

Follow @HeritageFundUK on Twitter, Facebook and Instagram and use #NationalLotteryHeritageFund www.heritagefund.org.uk

**About Gwent Archives**

Gwent Archives hold collections that tell the history of Gwent, and the stories of its people. The Archives collect the records of its local authorities, businesses, families, organisations and individuals. The collections include papers, plans, photographs, diaries and minutes.

Catalogued collections, preserved and conserved for today's communities, researchers, teachers, school pupils and future generations, can be accessed through the archives' online catalogues, social media, enquiry and digitisation services, as well as onsite access via their Research Room and events. Gwent Archive holds collections relating to the school, dating back to the 1700s. Items include the will of Charles Williams, a letter from him to his friend John Hanbury referencing the plan for an educational endowment, school logbooks, admission registers, punishment books and photographs (1855-2010), maps and the archive of former Headmistress (1948 - 1968), Primrose Hockey. This partnership project aims to unlock and reveal stories, through the archive's collections, linked to the 300-year history of Charles Williams Church in Wales Primary School; and to collect the oral histories of community members who have links to the school, whether previously pupils, teachers or school staff. The project aims to share this hidden heritage with the wider community and public, as well as to preserve this heritage for future generations.

Follow @GwentArchives on X/Twitter, Facebook and Instagram

**About the National Roman Legionary Museum**

Part of Amagueddfa Cymru, the National Roman Legionary Museum explores life in this far-flung outpost of the mighty Roman Empire. Wales was one of the furthest outposts of the Roman Empire. In AD 75, the Romans built a fortress at Caerleon that would guard the region for over 200 years. Caerleon was one of only three permanent fortresses in Roman Britain. The museum lies inside what remains of the fortress. The ruins in Caerleon include the most complete amphitheatre in Britain and the only remains of a Roman Legionary barracks on view anywhere in Europe.

The National Roman Legionary Museum researches, preserves and displays half a million objects from the Roman fortresses of Caerleon (Isca), Usk (Burrium) and their environs. It is an internationally important collection which provides evidence for life in two major Roman military bases, as well as life in civilian settlements that grew up around them.

Follow @AmgueddfaCymru on X/Twitter, Facebook and Instagram

**About Charles Williams Charity**

Founded in 1720 to administer a bequest made in the Will of the late Charles Williams, Charles Williams Charity has contributed £8,386 towards this National Lottery Heritage Fund supported project. To this day, the Charity helps support the maintenance of the property at Charles Williams Church in Wales Primary School.

The Charity also offers students who live in Caerleon a range of other awards including Hardship Grants. Hardship Grants support the wellbeing, learning and participation of students who require financial assistance, whether to purchase a school uniform or to participate in extracurricular activities for which a parent or caregiver would normally be charged. By addressing financial hardship, the Charity aims to create a more equitable and inclusive educational environment, enabling pupils to pursue their educational goals and unlock their potential.

## Further information

For further information, images and interviews please contact Headteacher, Rebecca Penn at Charles Williams Church in Wales Primary School by emailing:
miss.penn@charleswilliamsprimary.org

# Datganiad i'r wasg

## Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Charles Williams wedi derbyn grant gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol i ddathlu a rhannu ei hanes 300 mlynedd gyda'r gymuned leol.

Heddiw, mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Charles Williams yn cyhoeddi grant o £53,147 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol i ddathlu ein pen-blwydd yn 300 oed, drwy ymchwilio a rhannu ein treftadaeth gyda'r gymuned o'n cwmpas.

Mae'r ysgol yn eithriadol gan iddi gael ei ffurfio fel ysgol elusennol ar gyfer teuluoedd tlawd ac anghenus yn 1724, trwy waddol oddi wrth gyn breswylydd Caerllion, Charles Williams. I ddathlu'r garreg filltir bwysig hon, bydd ein hysgol – mewn cydweithrediad ag Archifau Gwent ac Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru – yn ymchwilio i'w threftadaeth o darddiad Sioraidd i hanes llawer mwy diweddar. Bydd yr ysgol gyfan yn cymryd rhan yn natblygiad y prosiect dysgu treftadaeth ac ymgysylltu cyhoeddus hwn. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd defnyddio ein trichanmlwyddiant i ddal ac achub treftadaeth a fyddai fel arall yn aros yn gudd ac mewn perygl o gael ei cholli. Bydd y cyllid yn ein galluogi i:

- Arbed treftadaeth drwy gasglu hanesion llafar gan y rhai a fynychodd yr ysgol, boed yn ddisgyblion, athrawon neu aelodau o staff.
- Gweithio mewn partneriaeth ag Archifau Gwent i ymchwilio i'n hanes 300 mlynedd. Mae Archifau Gwent yn cadw casgliadau sy'n ymwneud â'r ysgol, yn dyddio'n ôl i'r 1700au. Ymhlith yr eitemau mae ewyllys Charles Williams, llyfrau log ysgolion, cofrestrau derbyn, ffotograffau a mapiau.
- Cynnwys ein cymuned ysgol gyfan wrth ymchwilio ac archwilio treftadaeth unigryw ein hysgol. Gan weithio gydag arbenigwyr treftadaeth, gan gynnwys Ymgynghorydd Celfyddydau a Threftadaeth, Archifau Gwent a staff Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, bydd disgyblion yn datblygu ac yn cyd-guradu arddangosfa. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gydag uwch guradur Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru i gyd-guradu arddangosfa dros dro o arteffactau Rhufeinig a gloddiwyd o dir yr ysgol.
- Cynyddu mynediad a chyfranogiad yn ein straeon treftadaeth - trwy gyflwyno digwyddiadau arbennig gan gynnwys Diwrnodau Casglu Cymunedol, arddangosfa ryngweithiol i deuluoedd, sgyrsiau hanes arbenigol, taith gerdded treftadaeth a diwrnod o hwyl i'r teulu.
- Bydd y prosiect yn cael ei ddatblygu mewn ymgynghoriad ag Eco-Bwyllgor ein hysgol sy'n cael ei redeg gan ddisgyblion, a bydd ystyriaeth yn cael ei roi i ddefnyddio deunyddiau ecogyfeillgar, yn ogystal â lleihau gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu deunydd lle bynnag y bo modd.

Dros y misoedd nesaf, byddwn yn gwahodd y rhai sydd â chysylltiad â'r ysgol – p'un ai oeddynt hwy neu berthnasau iddynt yn ddisgybl, yn staff neu'n athro o'r blaen – i ymuno â ni mewn Diwrnodau Casglu Cymunedol arbennig, i rannu eu hetifeddiaeth bersonol a'u hatgofion o Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Charles Williams. I gadw mewn cysylltiad â'n cynnydd neu i fynychu digwyddiad dilynwch ni ar Facebook ac X/Twitter, a chadwch lygad ar ein gwefan am ddiweddariadau pellach: https://www.charleswilliamsprimary.org

Eglura Rebecca Penn, Pennaeth Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Charles Williams, "Rydym wrth ein bodd ac yn gyffrous ein bod wedi derbyn y gefnogaeth hon gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Mae'r prosiect hwn yn gyfle dysgu anhygoel i'n disgyblion, gan eu galluogi i archwilio ac ymchwilio i hanes sydd yn llythrennol o'u cwmpas ac o dan eu traed, gyda chefnogaeth arbenigwyr treftadaeth a chelfyddydau, ac i rannu'r hanes hwn gyda theulu, ffrindiau a'r gymuned ehangach. Diolchwn i Chwaraewyr y Loteri Genedlaethol am alluogi hyn i ddigwydd."

# Nodiadau i olygyddion

**Ynglŷn ag Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Charles Williams**

Ysgol a gynorthwyir yn wirfoddol yng nghanol tref hanesyddol Caerllion yw Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Charles Williams. Sefydlwyd yr ysgol yn 1724 diolch i gymynrodd a wnaed gan Charles Williams, cyn breswylydd Caerllion. Yn unol â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol, mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf ag Eglwys Sant Cadog, ac mae'n cydweithio'n agos ag Esgobaeth Mynwy. Ar hyn o bryd, mae ychydig dros 500 o blant ar y gofrestr (3 - 11 oed) ac rydym yn falch o groesawu plant o Gaerllion, pentrefi cyfagos ac ardaloedd eraill o Gasnewydd. Mae'r ysgol yn cael ei llywodraethu gan fwrdd o 16 o lywodraethwyr sy'n cynnwys y Pennaeth, Ficer y plwyf, dau aelod o staff, dau benodiad i'r Cyngor, dau riant, dau benodiad plwyfol, dau benodiad esgobaethol a phedwar Ymddiriedolwr Elusen Charles Williams. Mae lles ein plant wrth galon popeth a wnawn. Ymdrechwn i sicrhau bod ein plant yn hapus ac yn hyderus ac yn cyrraedd eu potensial dysgu, i fod y fersiwn orau ohonynt eu hunain ac i dyfu i fod yn ddinasyddion cyfrifol, ystyriol o Gymru a'r byd. Yn ein teulu ysgol, cariad yw sail popeth a wnawn. Rydyn ni'n rhannu cariad at ddysgu, cariad at ein gilydd a chariad at y byd. Ein gwerthoedd yw: Perthyn, Credu, Datblygu.

Dilynwch @cwprimary ar X/Twitter, ac @CharlesWilliamsPrimaryPTFA ar Facebook

#EinHysgol_GwreiddiauIDreftadaeth

**Ynglŷn â Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol**

Fel cyllidwr ymroddedig mwyaf treftadaeth y DU, gweledigaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yw i dreftadaeth gael ei gwerthfawrogi, gofalu amdani a'i chynnal i bawb, nawr ac yn y dyfodol, fel y nodir yn ein cynllun strategol, Treftadaeth 2033.

Dros y deng mlynedd nesaf, ein nod yw buddsoddi £3.6biliwn a godwyd ar gyfer achosion da gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol i ddod â buddion i bobl, lleoedd a'r amgylchedd naturiol.

Rydyn ni'n helpu i warchod, trawsnewid a rhannu'r pethau o'r gorffennol sy'n bwysig i bobl, o amgueddfeydd a mannau hanesyddol poblogaidd, ein hamgylchedd naturiol a rhywogaethau bregus, i'r ieithoedd a thraddodiadau diwylliannol sy'n dathlu pwy ydym ni.

Rydym yn angerddol dros dreftadaeth ac wedi ymrwymo i ysgogi arloesedd a chydweithio er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl heddiw, tra'n gadael etifeddiaeth barhaus i genedlaethau'r dyfodol ei mwynhau.

Dilynwch @HeritageFundUK ar Twitter, Facebook ac Instagram a defnyddio #CronfaTreftadaethyLoteriGenedlaethol https://www.heritagefund.org.uk/cy

**Ynglŷn ag Archifau Gwent**

Mae Archifau Gwent yn cadw casgliadau sy'n adrodd hanes Gwent, a straeon ei phobl. Mae'r Archifau yn casglu cofnodion ei awdurdodau lleol, busnesau, teuluoedd, sefydliadau ac unigolion. Mae'r casgliadau'n cynnwys papurau, cynlluniau, ffotograffau, dyddiaduron a chofnodion.

Gellir cyrchu casgliadau wedi'u catalogio, sydd wedi'u cadw a'u gwarchod ar gyfer cymunedau, ymchwilwyr, athrawon, disgyblion ysgol a chenedlaethau'r dyfodol, trwy gatalogau ar-lein yr archifau, y cyfryngau cymdeithasol, gwasanaethau ymholi a digideiddio, yn ogystal â mynediad ar y safle trwy eu Hystafell Ymchwil a digwyddiadau. Mae Archif Gwent yn cadw casgliadau sy'n ymwneud â'r ysgol, yn dyddio'n ôl i'r 1700au. Ymhlith yr eitemau mae ewyllys Charles Williams, llythyr oddi wrtho at ei gyfaill John Hanbury yn cyfeirio at y cynllun ar gyfer gwaddol addysgol, llyfrau log ysgolion, cofrestrau derbyn, llyfrau cosb a ffotograffau (1855-2010), mapiau ac archif y gyn Brifathrawes (1948 - 1968), Primrose Hockey. Nod y prosiect partneriaeth hwn yw datgloi a datgelu straeon, trwy gasgliadau'r archif, sy'n gysylltiedig â hanes 300 mlynedd Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Charles Williams; a chasglu hanesion llafar aelodau'r gymuned sydd â chysylltiadau â'r ysgol, boed yn ddisgyblion, athrawon neu staff ysgol blaenorol. Nod y Prosiect yw rhannu'r dreftadaeth gudd hon gyda'r gymuned ehangach a'r cyhoedd, yn ogystal â chadw'r dreftadaeth hon ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Dilynwch @ArchifauGwent ar X/Twitter, Facebook ac Instagram

**Ynglŷn ag Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru**

Mae Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, sy'n rhan o Amgueddfa Cymru, yn archwilio bywyd yn yr allbost pellennig hwn o'r Ymerodraeth Rufeinig fawreddog. Cymru oedd un o allbyst pellaf yr Ymerodraeth Rufeinig. Yn 75 OC, adeiladodd y Rhufeiniaid gaer yng Nghaerllion a fyddai'n gwarchod yr ardal am dros 200 mlynedd. Roedd Caerllion yn un o ddim ond tair caer barhaol ym Mhrydain Rufeinig. Mae'r amgueddfa yn sefyll y tu mewn i'r hyn sy'n weddill o'r gaer. Mae adfeilion

Caerllion yn cynnwys yr amffitheatr mwyaf cyflawn ym Mhrydain, a'r unig weddillion o farics y Lleng Rufeinig sydd i'w gweld yn unrhyw le yn Ewrop.

Mae Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru yn ymchwilio, yn cadw ac yn arddangos hanner miliwn o wrthrychau o gaerau Rhufeinig Caerllion (Isca), Brynbuga (Burrium), a'r cyffiniau. Mae'n gasgliad o bwysigrwydd rhyngwladol sy'n darparu tystiolaeth am fywyd mewn dwy brif ganolfan filwrol Rufeinig, yn ogystal â bywyd mewn aneddiadau sifil a dyfodd o'u cwmpas.

Dilynwch @AmgueddfaCymru ar X/Twitter, Facebook ac Instagram

**Ynglŷn ag Elusen Charles Williams**

Wedi'i sefydlu ym 1720 i weinyddu cymynrodd a wnaed yn Ewyllys y diweddar Charles Williams, mae Elusen Charles Williams wedi cyfrannu £8,386 tuag at y prosiect hwn a gefnogir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Hyd heddiw, mae'r Elusen yn helpu i gynnal a chadw eiddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Charles Williams.

Mae'r Elusen hefyd yn cynnig ystod o wobrau eraill i fyfyrwyr sy'n byw yng Nghaerllion gan gynnwys Grantiau Caledi. Mae Grantiau Caledi yn cefnogi lles, dysgu a chyfranogiad myfyrwyr sydd angen cymorth ariannol, boed i brynu gwisg ysgol neu i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol y byddai rhiant neu ofalwr yn gorfod talu amdanynt fel arfer. Trwy fynd i'r afael â chaledi ariannol, nod yr Elusen yw creu amgylchedd addysgol mwy teg a chynhwysol, gan alluogi disgyblion i ddilyn eu nodau addysgol a datgloi eu potensial.

## Gwybodaeth bellach

Am ragor o wybodaeth, lluniau a chyfweliadau cysylltwch â'r Pennaeth, Rebecca Penn yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Charles Williams drwy e-bostio:
miss.penn@charleswilliamsprimary.org

Gwnaed yn bosibl gan | Made possible with
Cronfa Treftadaeth Heritage Fund

CHARLES WILLIAMS
Church in Wales Primary School
1724 - 2024

Archifau Gwent Archives

Charles Williams Charity
SUPPORTING THE EDUCATION OF CAERLEON CHILDREN SINCE 1724

AMGUEDDFA CYMRU